# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

**RHAN 2**

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**PENNOD 3**

SWYDDOGAETHAU ATODOL

*Swyddogaethau amrywiol*

**67 Darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol**

(1) Caiff rheoliadau ddarparu i awdurdod lleol gyflenwi nwyddau neu wasanaethau i—

(a) person sy'n arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon, neu

(b) person sy'n gwneud darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon.

(2) Caiff y rheoliadau, ymhlith pethau eraill, ddarparu ar gyfer y telerau a'r amodau y caniateir i nwyddau a gwasanaethau gael eu cyflenwi yn unol â hwy.